RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT

# Llawlyfr i Ddarparwyr



Awst 2025

Cyhoeddwyd gan CITB, 4 Cyrus Way, Hampton, Peterborough, PE7 8HP.

© Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu 2025
Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2025.

Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875).

---

Mae CITB wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir. Paratowyd y pecyn hwn fel adnodd y gellir ei lwytho i lawr. Gellir ei ddefnyddio heb ganiatâd pellach gan CITB ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio o fewn sefydliad y darparwr hyfforddiant cymeradwy yn unig ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i gael unrhyw fantais nac elw.

# Cynnwys


Cynnwys ... 3
Cyd-destun ... 4
Cwmpas ... 5
Cyflwyniad ... 6
Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB: Cymeradwyo a Rheoli ... 7
Statws cymeradwyaeth y darparwr hyfforddiant ... 12
Ychwanegu cynhyrchion ychwanegol ... 13
Rhoi gwybod i CITB am ddigwyddiad penodol ... 14
Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ... 14
Staff hyfforddi ac asesu ... 15
Adnoddau cyflawni ... 16
Gofynion data ... 17
Darparu data ... 18
Gofynion gweinyddol ... 18
Cadarnhau gwybodaeth adnabod ... 19
Defnyddio iaith wrth hyfforddi, profi ac asesu ... 19
Systemau rheoli ansawdd ... 20
Cod ymddygiad ... 20
Caethwasiaeth fodern ... 21
Archwiliadau monitro CITB ... 22
Archwiliadau monitro CITB – parhad ... 23
Archwiliadau monitro CITB – parhad ... 24
Polisi atal twyll, camymarfer a chamweinyddu ... 25
Atal twyll, camymarfer, a chamweinyddu – parhad ... 26
Apeliadau, ymholiadau, cwynion a gwrthdaro rhwng buddiannau ... 27
Tynnu cymeradwyaeth yn ôl ... 28
Apelio yn erbyn penderfyniad CITB ... 29
Atodiad 1: Meini prawf cymeradwyo ... 30
Atodiad 1 – Meini Prawf Cymeradwyo ... 32
Atodiad 2: Camau unioni ... 36
Atodiad 3: Cymwysterau hyfforddwyr ac esemptiadau ... 37
Atodiad 4: Rhesymau dros roi diweddariad i CITB ... 38
Atodiad 5: Hysbysiad prosesu teg ... 39
Atodiad 6 – Proses Diwydrwydd Dyladwy CITB ... 40

# Cyd-destun

Nod holl waith CITB yw diwallu anghenion sgiliau a hyfforddiant y diwydiant adeiladu. Ein pwrpas yw helpu'r diwydiant i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol nawr ac yn y dyfodol.

Gwyddom fod rhaid i ni newid y system sgiliau er mwyn cyflawni hynny. Ond allwn ni ddim gwneud hyn ar ein pen ein hunain; mae angen i'r diwydiant a'i randdeiliaid wneud eu rhan. Mae darparwyr hyfforddiant yn bartneriaid allweddol yn y broses o sbarduno'r newid angenrheidiol. Dyna pam rydym wedi creu Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB – rhwydwaith unedig o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy gyda sicrwydd ansawdd ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.

Rydym wir yn gwerthfawrogi ymroddiad darparwyr hyfforddiant ar draws Prydain sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi eu cwsmeriaid, eu cynrychiolwyr a'u staff. Nid dim ond rhanddeiliaid yw darparwyr hyfforddiant – maen nhw'n bartneriaid allweddol sydd â rôl hanfodol yn y broses o greu system sgiliau sy'n ddigon ystwyth i ddiwallu anghenion cyflogwyr nawr ac yn y dyfodol.

Yn ein barn ni mae darparwyr hyfforddiant yn haeddu cael llais clir, pwerus i helpu i siapio'r cyd-destun hyfforddiant. Mae eu gwybodaeth yn cynnig safbwynt hollbwysig i CITB ar yr heriau, yn ogystal â'r cyfleoedd, sy'n bodoli o ran yr hyfforddiant adeiladu a ddarperir.

Drwy ddod â darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a CITB at ei gilydd ar lefel genedlaethol a lleol, gallwn:

- Ragweld anghenion hyfforddiant yn well
- Cynllunio'r ddarpariaeth yn strategol
- Darparu hyfforddiant sydd wir yn bodloni gofynion cyflogwyr
- Cefnogi twf yn ogystal â chynaliadwyedd busnes darparwyr.

Mae aelodau Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd, ac maen nhw'n ffynhonnell hyfforddiant effeithiol a dibynadwy ar gyfer y diwydiant adeiladu, gan helpu i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r bylchau mewn sgiliau allweddol sy'n bodoli ym mhob galwedigaeth.

**Ein gweledigaeth:**
Mae Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB yn elfen annatod, ddibynadwy o ddarpariaeth CITB i'r diwydiant, lle gall unrhyw gyflogwr gael gafael yn hyderus ar hyfforddiant o safon ar yr union adeg, ac yn yr union leoliad, y bydd angen hynny arno.

**Ein dull gweithredu:**
Ar sail cydweithio a gwaith partneriaeth gwirioneddol, byddwn yn darparu gwybodaeth werthfawr a arweiniwyd gan gyflogwyr a chefnogaeth bwrpasol, gan roi'r cyfle i aelodau ddatblygu eu busnes a bod yn rhan o'r ateb i'r broblem sgiliau.

**Ein hymrwymiad:**
Bydd aelodau'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant yn elwa o'r canlynol:

- cydnabyddiaeth ymysg ein cyflogwyr eu bod yn ddarparwr hyfforddiant o safon
- cefnogaeth gan dîm pwrpasol yn CITB
- gwybodaeth a arweiniwyd gan gyflogwyr sy'n eu helpu i gynllunio eu darpariaeth yn well
- bod yn rhan o lais unedig i addysgu CITB a rhanddeiliaid allweddol eraill am y cyd-destun hyfforddiant a sgiliau
- cysylltiad â chyflogwyr sy'n cynnig mynediad at lif o gwsmeriaid.

# Cwmpas

Bydd Cwmpas Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB yn cynnwys cynhyrchion sy'n helpu i ddarparu hyfforddiant, asesiadau a phrofion ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB yn agored i bob darparwr hyfforddiant, gan gynnwys colegau (AB), prifysgolion (AU), darparwyr hyfforddiant masnachol, gweithgynhyrchwyr, cyflogwyr, a ffederasiynau sy'n darparu hyfforddiant ac yn datblygu'r diwydiant adeiladu.
Mae'r dogfennau isod yn rhan o gwmpas Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB:

- Llawlyfr i Ddarparwyr Hyfforddiant *(y ddogfen hon)*
- Ffurflenni cytundeb
- Telerau Safonol Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB
- Gwerthoedd ac egwyddorion aelodaeth CITB
- Rheolau cynlluniau CITB ar gyfer cynhyrchion Trwyddedig (CITB)
- Addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig CITB
- Polisi apeliadau CITB
- Polisi goruchwylio CITB
- Polisi CITB ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau
- Polisi atal twyll, camymarfer a chamweinyddu CITB
- Polisi caethwasiaeth fodern CITB
- Polisi e-ddysgu ac e-asesu CITB
- Canllawiau brand CITB
- Rhestr ffioedd CITB.

# Cyflwyniad

Mae CITB wedi atgyfnerthu ei ddull sicrhau ansawdd er mwyn symleiddio'r broses o gymeradwyo a rheoli darparwyr hyfforddiant sy'n rhan o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r trefniadau sicrhau ansawdd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ddarparwr hyfforddiant sy'n gweithredu o fewn Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

Bydd y ddogfen hon yn rhoi arweiniad pendant ar sut bydd CITB yn gwneud gwaith sicrhau ansawdd ar draws yr holl ddarpariaeth hyfforddiant o fewn Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant, asesiadau a phrofion, a phan fydd yn berthnasol, bydd yn sicrhau bod gwybodaeth gadarn a dibynadwy am gyflawniadau ar gael y gall y diwydiant adeiladu ddibynnu arni, ac a ddarperir i CITB er mwyn ei harddangos ar y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu.

Er mwyn i chi allu gwneud yn fawr o gymeradwyaeth Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, mae'n hollbwysig bod yr holl staff sy'n ymwneud â gweinyddu, darparu hyfforddiant, asesu, sicrhau ansawdd a rheoli yn darllen ac yn deall y llawlyfr hwn.

Yn achos cynhyrchion 'Trwyddedig' CITB, gan gynnwys Canolfannau Prawf Ar-lein (ITC) ar gyfer cynnal profion iechyd, diogelwch a’r amgylchedd, a Chanolfannau Site Safety Plus (SSP) ar gyfer darparu cynhyrchion Site Safety Plus, mae'n bwysig nodi bod CITB yn darparu dogfennau cynlluniau ychwanegol sy'n help i ddarparu'r cynhyrchion hynny.

# Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB: Cymeradwyo a Rheoli

1. Mae CITB wedi gwneud y broses o ymgeisio i fod yn rhan o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB yn un mor syml a hwylus â phosibl, gan roi sicrwydd bod yr ymgeisydd yn deall pwysigrwydd hyfforddiant o safon ac yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y ddogfen hon.

2. Mae gan Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB bedwar categori cymeradwyo, gyda hyd a lled y gofynion a'r dulliau gweithredu ar gyfer sicrhau ansawdd yn amrywio ym mhob categori, sy'n adlewyrchu'r gwahanol risgiau sy'n gysylltiedig â phob categori.

    - **Cymeradwyedig** – darparwr hyfforddiant sy'n cynnig cynnyrch sy'n gymorth i'r diwydiant adeiladu, gan gynnwys hyfforddiant 'sgiliau meddal' – er enghraifft hyfforddiant TGCh, rheoli, cefn swyddfa a hyfforddiant heb ei safoni. Ni fydd y cyrsiau hyn yn cael eu safoni ond efallai y byddant yn cael grant neu gymorth ariannol gan CITB.
    - **Cydnabyddedig** – darparwr hyfforddiant sy'n darparu cynnyrch trydydd parti a ategir gan safonau cyfnod byr CITB. Er enghraifft, hyfforddiant peiriannau a ddarperir drwy gynllun cerdyn ac sydd wedi cael cymeradwyaeth trydydd parti, prentisiaethau, NVQ's/SVQ's a/neu unrhyw gymhwyster adeiladu arall.
    - **Wedi'i Sicrhau** – darparwr hyfforddiant sy'n darparu ei gynhyrchion ei hun sydd wedi cael eu mapio yn erbyn safonau cyfnod byr priodol CITB, lle mae CITB yn gwneud gwaith sicrhau ansawdd.
    - **Trwyddedig** – darparwr hyfforddiant sy'n darparu un o gynhyrchion CITB. Er enghraifft cyrsiau Site Safety Plus, neu brofion Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

3. Mae pob categori yn rhan o strwythur grwpio (nesting). Felly, os ydych chi wedi cael eich cymeradwyo i ddarparu cynhyrchion Trwyddedig, byddwch yn cael eich cymeradwyo'n awtomatig i ddarparu cynhyrchion yn y categorïau risg is heb fod angen ailymgeisio. Yr unig beth y bydd angen i chi ei wneud fydd gwneud cais ar gyfer cynllun ychwanegol a chyflwyno unrhyw wybodaeth ategol, a byddwn ninnau'n ychwanegu eich cais at eich cymeradwyaeth.

4. Yn achos y categori 'Cymeradwyedig', bydd CITB yn cymeradwyo sefydliadau sy'n bodloni'r gofynion a nodwyd yn atodiad 1 y ddogfen hon – yn benodol, 'Diwydrwydd Dyladwy'.

5. Yn achos y categori 'Cydnabyddedig', bydd CITB yn cymeradwyo sefydliadau sy'n bodloni'r gofynion a nodwyd yn atodiad 1 – yn benodol, 'Diwydrwydd Dyladwy', yn ogystal â thystysgrif cymeradwyo, ac adroddiad cyfredol ar Sicrhau Ansawdd Allanol sy'n dangos nad yw'r corff dyfarnu trydydd parti hwnnw wedi'i atal dros dro o gwbl.

6. Yn achos y categori ‘Wedi Sicrhau’, bydd CIBT yn cymeradwyo sefydliadau sy’n bodloni’r gofynion a nodwyd yn atodiad 1, yn ogystal â datganiad wedi’i lofnodi sy’n datgan bod cyrsiau’r darparwr wedi cael eu mapio yn erbyn Safonau Cyfnod Byr CITB. Bydd CITB yn adolygu’r broses fapio yn ystod yr ymweliad cyntaf ar ôl cymeradwyo.

7. Yn achos y categori ‘Trwyddedig’, bydd CITB yn cymeradwyo sefydliadau sy’n bodloni'r gofynion a nodwyd yn atodiad 1, yn ogystal ag unrhyw ofynion ychwanegol a nodwyd yn y rheolau penodol i’r cynllun ar gyfer Site Safety Plus a Chanolfannau Prawf Ar-lein.

8. Bydd cael eich cymeradwyo yn eich galluogi i weithredu fel aelod o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB ar draws Prydain, yn unol â diffiniad [telerau safonol] Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

9. Drwy ymgeisio i fod yn rhan o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, rydych yn derbyn y ddogfen hon (neu ddiwygiadau dilynol i'r ddogfen hon, y bydd CITB yn rhoi gwybod i chi amdanynt o dro i dro), ac yn cytuno i weithredu yn unol â meini prawf cymeradwyo Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB (atodiad 1) a chamau unioni'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant (atodiad 2).

10. Mae CITB yn defnyddio methodoleg BS/EN/ISO/9001 i reoli Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, gan gynnwys ‘Bwriad’, ‘Gweithredu’, ac ‘Effeithiolrwydd’, yn ogystal â chylch ‘Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu’. Byddwch chi’n gweld hyn yn ein dull fesul cam o reoli darparwyr hyfforddiant.

11. I fod yn aelod o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, rhaid cael digon o brofiad rheoli i allu cefnogi pob elfen o’r broses o ddarparu'r cyrsiau rydych am eu darparu i’r diwydiant adeiladu.

12. Cyn cyflwyno unrhyw gwrs cyfnod byr, cynnyrch cymhwysedd, prawf, prentisiaeth, a/neu gymhwyster a gydnabyddir at ddibenion Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CIBT, rhaid i chi ddod yn aelod o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB ar gyfer y categori priodol.

13. Os oes gan eich sefydliad drefniant partneriaeth â sefydliad arall, rhaid i rolau, cyfrifoldebau, a rhwymedigaethau pob sefydliad gael eu nodi’n glir. Rhaid i hyn gynnwys cyfrifoldeb dros reoli ansawdd a hyfforddiant, a dros weinyddu’r cyrsiau cymeradwy. Rhaid i chi ddangos sut rydych yn cynnal y broses gyfathrebu rhwng y gwahanol sefydliadau.

14. Ni fydd CITB yn derbyn is-gontractio cytundeb Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB ar gyfer y broses sicrhau ansawdd. Pwrpas hyn yw sicrhau bod mesurau rheoli yn eu lle pan ddefnyddir arbenigwyr i ategu’r ddarpariaeth, er mwyn cynnal y safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

15. Bydd CITB yn rhoi arweiniad a chefnogaeth briodol i chi er mwyn i chi allu bodloni'r gofynion ar gyfer ymaelodi â Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, a lleihau

biwrocratiaeth yn y broses. Mae rhagor o gefnogaeth ar gael drwy dimau sicrhau ansawdd teithiol CITB, sydd wedi'u lleoli ym mhob cwr o Brydain.

16. Gan ddibynnu ar gategori'r cynhyrchion a'r cyrsiau rydych chi'n eu cynnig, bydd hyd a lled y gofynion cymeradwyo a'r broses sicrhau ansawdd yn amrywio. Mae'r amrywiadau hyn yn seiliedig ar risg a natur y cynhyrchion. Er enghraifft, os ydyn nhw'n hanfodol i ddiogelwch neu'n arwain yn uniongyrchol at gymhwysedd, bydd hyd a lled y gofynion cymeradwyo yn ehangach.

17. Pan gewch eich cymeradwyo yn y categori 'cydnabyddedig', bydd CITB yn cael sicrwydd drwy drefniadau ansawdd sefydliadau trydydd parti, ac felly ni fydd yn ychwanegu unrhyw faich at y broses o gydweithio â ni. (Pan fydd CITB wedi rhoi cefnogaeth ar ffurf cyllid a grantiau, mae'n bosibl y bydd CITB yn adolygu unrhyw hyfforddiant neu asesiad o bryd i'w gilydd).

18. Rhaid i'r sefydliad trydydd parti sy'n darparu trefniadau sicrhau ansawdd gael cynhyrchion y dyfarnwyd iddynt gymhwyster rheoledig neu safon cyfnod byr 'gydnabyddedig'.

19. Mae CITB yn mynd ati fesul cam i gymeradwyo a rheoli darparwyr hyfforddiant. Mae'r dull hwn o weithredu yn galluogi'r broses i dynnu'r baich oddi arnoch chi, ac wedi'i gysylltu'n benodol â'r categori cymeradwyo rydych chi wedi ymgeisio ar ei gyfer.

20. Mae'r gofynion cymeradwyo i'w gweld yn atodiad 1 y ddogfen hon, ynghyd ag arweiniad ar sut i fodloni'r gofynion.

21. **Cam un** – mae'r wybodaeth hon yn rhan o'r ffurflen gais, ac yn galluogi CITB i wneud ei waith diwydrwydd dyladwy. Mae'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

    - Enw'r Darparwr a/neu ei enw 'Masnachu fel'
    - Enw'r Swyddog Cyfrifol neu'r Rheolwr Gyfarwyddwr
    - Cyfeiriad masnachu a chyfeiriad cofrestredig
    - Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau (pan fydd yn berthnasol)
    - Cynhyrchion y mae angen cymeradwyaeth ar y darparwr er mwyn eu darparu, gan gynnwys datganiad mapio a/neu gymeradwyaeth trydydd parti, yn unol â'r categori cymeradwyo
    - Datganiad gan y darparwr ei fod yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn atodiad 1
    - Datganiad o unrhyw ymchwiliadau blaenorol a gynhaliwyd, a manylion yr ymchwiliadau hynny
    - Archwiliad credyd Experian
    - Copi o unrhyw gymeradwyaeth trydydd parti
    - Cytundeb i lynu wrth Werthoedd ac Egwyddorion Aelodaeth Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

22. Bydd CITB yn rhoi cymeradwyaeth dros dro i chi pan fydd y broses diwydrwydd dyladwy wedi'i chwblhau. Er mwyn i'r gymeradwyaeth barhau rhaid cael ymweliad cyntaf o fewn tri mis i'r gymeradwyaeth er mwyn adolygu'ch darpariaeth, ar sail eich datganiad ac atodiad 1.

23. Pan mai cynnyrch Trwyddedig (Site Safety Plus a Phrawf Ar-lein) sy'n cael ei gymeradwyo, bydd aelod o dîm Sicrhau Ansawdd CITB yn archwilio'r holl ddogfennau yn ystod cam diwydrwydd dyladwy'r broses gymeradwyo. I fod yn glir, does dim cam cymeradwyaeth dros dro ar gyfer y cynhyrchion hyn.

24. Yn benodol i'r categori 'Cymeradwyedig' gofynnir i chi gadarnhau, drwy gyflwyno datganiad, bod eich cynhyrchion wedi cael eu mapio yn unol â'r safonau a gytunwyd ar gyfer y diwydiant sydd wedi cael eu datblygu gan gyflogwyr yn y diwydiant adeiladu, ac sy'n allweddol er mwyn cael canlyniadau hyfforddiant dibynadwy a safonedig. Bydd hyn yn cael ei archwilio yn ystod yr ymweliad cyntaf ar ôl cymeradwyo.

25. Rhoddir cymeradwyaeth dros dro ar ôl i'r wybodaeth gael ei chyflwyno – bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel cam **'Bwriad'** y gymeradwyaeth. Yn syml iawn, byddwch chi'n dweud wrthym ni beth fyddwch chi'n ei gyflawni, a sut. Bydd yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthym yn ystod cam un yn cael ei adolygu yng ngham dau; '**Gweithredu**' yw enw'r cam hwn.

26. Gall CITB ddewis ymestyn cyfnod y gymeradwyaeth dros dro os yw'r broses weithredu, ym marn resymol CITB, yn wahanol i'r hyn ddywedoch chi yn ystod y cam cymeradwyaeth dros dro. Gallai hyn arwain at gynllun gweithredu neu, mewn amgylchiadau mwy difrifol, at atal y gymeradwyaeth dros dro.

27. Yn ystod y cyfnod rhwng y gymeradwyaeth dros dro a'r ymweliad cyntaf ar ôl cymeradwyo, bydd CITB yn adolygu'r dogfennau ac o bosibl yn gofyn am fwy o wybodaeth neu'n rhoi adborth i chi. Mewn rhai achosion, bydd CITB yn mynnu eich bod yn gweithredu ar ein hadborth.

28. **Cam Dau** – fel arfer bydd y cam hwn yn digwydd o leiaf fis, ac o fewn dim mwy na thri mis, ar ôl y gymeradwyaeth dros dro.

29. Pwrpas y cam hwn yw adolygu a yw'r cam '**gweithredu**' yn cyd-fynd â'r hyn ddywedoch chi yn ystod cam un, sef eich '**bwriad**'. Yn syml iawn, ydych chi'n cyflawni'r hyn ddywedoch chi y byddech chi'n ei gyflawni, ac yn y ffordd ddywedoch chi y byddech chi'n gwneud hynny.

30. Yn achos y categorïau 'cymeradwyedig' a 'trwyddedig', bydd ymyriadau ansawdd CITB yn cynnwys naill ai ymyriad wyneb yn wyneb neu ymyriad o bell. Byddwn yn gweithio gyda chi er mwyn deall eich dull o weithredu a sut mae'r ffordd rydych yn cyflwyno'r cynnyrch yn cyrraedd safonau'r diwydiant adeiladu, neu ofynion penodol CITB ar gyfer y cynnyrch. Byddwn hefyd yn dod i'ch adnabod chi a'ch staff; bydd hyn yn ein galluogi i roi cymorth pan fydd angen hynny arnoch chi.

31. Yn achos y categorïau 'Wedi Sicrhau' a 'Cydnabyddedig', eithriad fydd cael ymyriad gan CITB, a bydd fel arfer yn digwydd pan fydd achos dros gredu y bu methiant, neu fod methiant ar fin digwydd. Y rheswm am hynny yw oherwydd nad yw'r broses gyflawni wedi'i safoni, neu mai sefydliad trydydd parti sy'n gyfrifol am y broses gyflawni.

32. O bryd i’w gilydd mae’n bosibl y bydd angen cyhoeddi cynlluniau gweithredu ac – mewn rhai amgylchiadau – cymryd camau atal dros dro pan fydd y broses **weithredu**, ym marn resymol CITB, yn wahanol i’r **bwriad** a ddatganwyd, neu os nad yw **effeithiolrwydd** y broses weithredu yn arwain at allbynnau o ansawdd uchel. Bydd CITB yn cydweithio â chi er mwyn lleihau’r effaith, gan sicrhau bod allbynnau a hyfforddiant o safon yn cael eu darparu.

33. **Cam Tri** – rhaid cael archwiliadau cylchol llwyddiannus gyda CITB er mwyn parhau i fod yn aelod o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB. Bydd yr archwiliadau hyn yn cefnogi ac yn mesur effeithiolrwydd eich system rheoli ansawdd yn ogystal ag ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir, ac yn galluogi'r diwydiant adeiladu i ddibynnu ar y cyflawniadau y mae’ch sefydliad yn eu llwytho i fyny i’r porth, pan fydd yn berthnasol.

34. Y bwriad yw y bydd archwiliadau CITB yn defnyddio cynllunydd ymweliadau deinamig. Bydd hyn yn sicrhau nad ydych chi'n cael eich llethu gan ormod o ymweliadau, a’ch bod yn cael digon o gymorth i'ch helpu i fodloni'r gofynion a nodwyd er mwyn bod yn rhan o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

## Statws cymeradwyaeth y darparwr hyfforddiant

35. Rhoddir **Cymeradwyaeth Dros Dro** pan fyddwch chi wedi darparu'r holl wybodaeth i CITB sy'n dangos pwy ydych chi a beth rydych chi'n dymuno ei gyflawni. Rhoddir y gymeradwyaeth hon am uchafswm o dri mis a chyn yr 'ymweliad cyntaf ar ôl cymeradwyo'. Nid yw hyn yn berthnasol i'r categori 'Trwyddedig'.

36. Fel arfer, cynhelir yr **Ymweliad Cyntaf ar ôl Cymeradwyo** o leiaf fis, ac o fewn dim mwy na thri mis, ar ôl dyfarnu’r gymeradwyaeth dros dro. Bydd CITB yn cynnal naill ai ymweliad wyneb yn wyneb neu o bell ac yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y cam ymgeisio, yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant a ddarparwyd yn ystod cyfnod y gymeradwyaeth dros dro.

37. **Cynllun Gweithredu** – os bydd CITB, yn ystod yr ymweliad cyntaf ar ôl cymeradwyo, yn dod o hyd i elfennau y mae angen eu gwella neu’n canfod eich bod yn gwneud rhywbeth gwahanol i'r hyn a ddywedwyd wrth CITB yn ystod y cam ymgeisio, mae’n bosibl y bydd angen cynllun gweithredu. Bydd hyn yn arwain at ymestyn y statws cymeradwyaeth dros dro. Mewn rhai amgylchiadau gall CITB ddileu statws dros dro os nad ydych, ym marn resymol CITB, yn bodloni gofynion Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

38. Os ydych chi wedi bodloni'r gofynion, ac nad oes unrhyw broblemau wedi’u canfod, bydd **Cymeradwyaeth** yn cael ei dyfarnu i chi. Bydd CITB yn cydweithio ac yn ymweld â chi eto yn y dyfodol i gael sicrwydd bod y diwydiant adeiladu yn cael darpariaeth o safon sy'n sicrhau canlyniadau dibynadwy.

## Ychwanegu cynhyrchion ychwanegol

39. Gallwch ychwanegu cynhyrchion at eich cymeradwyaeth wrth i'ch busnes ddatblygu. Yr unig beth y bydd angen i chi ei wneud fydd rhoi gwybod i ni beth rydych am ei ychwanegu – gan ddibynnu ar lefel y gymeradwyaeth sydd gennych chi'n barod, mae’n bosibl na fydd llawer i'w wneud.

40. Os yw categori'r cynnyrch yn galw am sicrwydd dyfnach ac ehangach, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth a fydd yn llenwi'r bylchau yn eich cymeradwyaeth. Ond, ni fydd CITB yn gofyn i chi ailadrodd y broses gymeradwyo yn ei chyfanrwydd.

41. Ni fydd rhai safonau'n cael eu cymeradwyo'n awtomatig os ydyn nhw’n hanfodol i ddiogelwch, neu os oes amod ymarferol yn yr hyfforddiant, yr asesiad a/neu'r prawf. Yn yr achosion hyn, bydd Tîm Sicrhau Ansawdd CITB yn cydweithio â chi ac yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i helpu'r broses hon.

## Rhoi gwybod i CITB am ddigwyddiad penodol

42. Fel aelod o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, mae gennych chi gyfrifoldeb i roi gwybod i CITB os oes gennych reswm dros gredu bod yr amgylchiadau wedi newid mewn modd a allai effeithio ar y broses o ddarparu eich cynhyrchion yn unol â'ch cymeradwyaeth – gweler atodiad 4.

43. Mae modd anfon hysbysiadau a diweddariadau dros e-bost i quality.assurance@citb.co.uk. Os nad ydych chi'n siŵr a ddylid rhoi gwybod am ddigwyddiad, bydd tîm sicrhau ansawdd CITB yn eich helpu drwy roi gwybodaeth a chyngor.

44. Os na fyddwch chi'n rhoi gwybod i CITB ar unwaith am newid, gallech gael eich atal o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB dros dro.

## Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol

45. Mae gan CITB bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cyd-fynd â'r ddeddf a'r is-ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae CITB yn helpu cynrychiolwyr gyda threfniadau mynediad arbennig ac addasiadau rhesymol pan fydd ganddyn nhw ofyniad dysgu arbennig neu angen tymor byr er mwyn iddyn nhw allu cael gafael ar hyfforddiant. Mae polisi CITB a rhagor o arweiniad ar gael ar ein gwefan: www.citb.co.uk

## Staff hyfforddi ac asesu

### Hyfforddwyr ac Aseswyr

46. Rydych chi'n gyfrifol am benodi staff cymwys a chymwysedig sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ymwneud â darparu hyfforddiant, asesiadau a phrofion.

47. Mae gofyn bod gan yr hyfforddwyr a'r aseswyr y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol ym maes penodol yr hyfforddiant maen nhw'n ei ddarparu – e.e. gosod brics. Fodd bynnag, gallant fod yn gweithio tuag at eu cymhwyster hyfforddwr. *(Nodyn: rhaid i hyfforddwyr fod wedi cofrestru ar gyfer cymhwyster hyfforddwyr sy'n cael ei gydnabod gan CITB cyn dechrau darparu unrhyw hyfforddiant ar gyfer y categorïau 'cymeradwyedig' a 'trwyddedig').*

48. Rhaid i chi gadw dogfennau i gefnogi penodiad hyfforddwyr ac aseswyr. Gellid dangos hyn drwy CV y gellir ei ddilysu, cymwysterau, a/neu ddatganiad tyst.

*49.* Ar ôl cofrestru ar gyfer y cymhwyster hyfforddwr, bydd gan yr hyfforddwr 12 mis o'r dyddiad cofrestru i gyflawni'r dyfarniad. Os na fydd y cymhwyster yn cael ei gwblhau o fewn y cyfnod hwnnw, gellir apelio i Dîm Sicrhau Ansawdd CITB. *(Ni fydd llwyth gwaith yn apêl dderbyniol).*

50. Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwaith safoni a DPP hyfforddwyr – rhaid i'r hyfforddwr gofnodi o leiaf 35 awr o DPP y flwyddyn fan leiaf.

### Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol

51. Rhaid i staff sy'n cynnal prosesau sicrhau ansawdd mewnol fod â phrofiad galwedigaethol ym maes adeiladu, a gwybodaeth y gellir ei dilysu am y pwnc.

52. Mae gofyn hefyd bod gan staff sicrhau ansawdd wybodaeth ymarferol a phrofiad o weithredu system rheoli ansawdd mewn cyd-destun addysgiadol.

53. Rhaid i chi gadw dogfennau i gefnogi penodiad y staff ansawdd. Gellid dangos hyn drwy CV y gellir ei ddilysu, cymwysterau, a/neu ddatganiad tyst.

54. Yn achos NVQ/SVQ a phrentisiaethau, mae'n rhaid i'r staff sicrhau ansawdd mewnol fod yn gymwysedig a meddu ar y cymwysterau a nodwyd yn strategaeth asesu gyfunol CITB, neu'r safon prentisiaeth.

55. Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwaith safoni a DPP – rhaid i'r staff sy'n ymwneud ag ansawdd gofnodi o leiaf 35 awr o DPP y flwyddyn fan leiaf.

## Adnoddau cyflawni

56. Rhaid i chi gael yr adnoddau priodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cynhyrchion hyfforddi, profi ac asesu rydych chi wedi cael eich cymeradwyo i'w darparu. Mae hyn yn cynnwys yr adnoddau canlynol, ymysg eraill; ystafell ddosbarth, cyfleusterau lles, cymorth dogfennol, taflunyddion, sgriniau a deunyddiau ysgrifennu yn ôl yr angen. Mae angen y lle angenrheidiol hefyd i ddarparu'n ddiogel unrhyw hyfforddiant, profion a/neu asesiadau ymarferol, yn ogystal ag offer i gynnal yr elfennau ymarferol.

57. Rhaid i unrhyw offer a ddarperir, sy'n ategu hyfforddiant, profion ac asesiadau, fod yn ddiogel a chael eu profi fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Rhaid i chi hefyd fod yn dawel eich meddwl bod yr hyfforddwr a'r aseswyr yn gymwys i ddefnyddio'r offer a'u bod yn gallu mynd ati'n briodol i oruchwylio'r unigolion a fydd yn defnyddio'r offer ar y cyrsiau hyfforddi.

58. Bydd adnoddau arbenigol eraill yn cael eu rhestru yn safon yr hyfforddiant neu'r brentisiaeth, neu mewn safonau galwedigaethol fel y bo'n berthnasol.

## Gofynion data

59. Rhaid i chi gael a chynnal system ddibynadwy y gellir ei harchwilio ar gyfer yr hyfforddiant, yr asesiadau a'r profion a ddarperir, ynghyd â'r gwaith sicrhau ansawdd ategol sydd wedi cael ei wneud am o leiaf dair blynedd. Gellid defnyddio'r cofnodion hyn i gadarnhau unrhyw honiadau a/neu i ddatrys unrhyw apeliadau yn ystod y cyfnod o dair blynedd.

60. Bydd y cofnodion hyn yn rhan o'r adolygiadau sicrhau ansawdd, a byddant yn cael eu defnyddio i archwilio'r data a ddarperir i CITB yn ogystal ag unrhyw gymorth ariannol a roddir gan CITB.

61. Rhaid i'r wybodaeth ganlynol gael ei darparu i CITB ar gais, gan restru'r holl gynrychiolwyr sydd wedi cyflawni hyfforddiant, profion a/neu asesiadau.

**Manylion y Cynrychiolydd**

- Enw, cyfeiriad cartref, rhif ffôn a dyddiad geni'r cynrychiolydd.
- Cod adnabod unigryw'r cynrychiolydd (Rhif Yswiriant Gwladol, ID Phoenix, Rhif Unigryw'r Dysgwr).
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cyflogwr.
- Rhif Lefi'r Cyflogwr (pan fydd hynny'n berthnasol).
- Cadarnhad o'r wybodaeth adnabod.
- Hysbysiad prosesu teg wedi'i lofnodi.

**Manylion yr Hyfforddwr, yr Asesydd a'r Goruchwyliwr**

- Enw(au) yr hyfforddwr, yr asesydd, a'r goruchwyliwr (fel y bo'n berthnasol)).
- Enw(au) y swyddog sicrhau ansawdd.

**Cofnodion hyfforddiant unigol**

- Enw'r cwrs hyfforddi, gan gynnwys:
  - Dyddiad
  - lleoliad
  - enw(au) yr hyfforddwr, yr asesydd neu'r goruchwyliwr
  - hyd y cwrs
  - adborth gan y cynrychiolwyr a/neu'r cyflogwr.

**Cofnodion o waith monitro ansawdd**

- Amserlen archwilio/cynllun sampl monitro ansawdd.
- Gwaith ansawdd (pwy, beth, ble a phryd).

## Darparu data

62. Rhaid i chi ddefnyddio'r union eiriad sydd yn yr 'Hysbysiad Prosesu Teg' (atodiad 5) wrth gyflwyno cwrs neu gyrsiau i gynrychiolwyr sy'n ymwneud â defnyddio eu data at ddibenion y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu. Mae'r hysbysiad prosesu teg hefyd yn egluro i gynrychiolwyr sut mae cynnwys eu data ar y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu yn arwain at fanteision iddynt.

63. Mae'r hysbysiad prosesu teg hefyd yn egluro sut gall y cynrychiolydd wneud cais i'w ddata gael ei 'ddad-gyhoeddi' ar Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu CITB.

64. Rhaid i chi gael gweithdrefn ysgrifenedig yn ei lle a fydd yn gymorth wrth archwilio'r defnydd o'r 'hysbysiad prosesu teg'. Gallai peidio â chadw cofnodion cywir arwain at atal eich aelodaeth o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB dros dro neu ei derfynu.

65. Bydd Porth CITB yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi bodloni'r gofynion a nodwyd yn yr adran hon.

## Gofynion gweinyddol

66. Fel rhan o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, byddwch chi'n rhan allweddol o'r broses o ddarparu'r data cyflawniadau ar gyfer y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu (pan fydd hynny'n berthnasol). Bydd hyn yn galluogi'r diwydiant i weld cyflawniadau unigolyn mewn amser real (ar ôl i'r cyflawniad gael ei lwytho i fyny).

67. Bydd CITB yn mynnu bod pob darparwr hyfforddiant yn llwytho i fyny'n gywir gyflawniadau hyfforddi cynrychiolwyr sydd wedi cael eu hyfforddi yn eu sefydliad, a hynny o fewn deg diwrnod gwaith i'r hyfforddiant.

68. Er mwyn sicrhau bod y gofrestr hyfforddiant yn gyflawn, hoffem i holl gyflawniadau gweithwyr adeiladu gael eu llwytho i fyny, nid dim ond y rheini sy'n derbyn cymorth ariannol gan CITB.

69. Pan fydd cyflawniad yn dibynnu ar dystysgrif trydydd parti (e.e. NVQ), rhaid i chi aros nes bydd yr hyfforddiant neu'r asesiad wedi cael ei ardystio a bod gennych gopi o'r dystysgrif honno, a'i llwytho i fyny o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn y dystysgrif honno gan y corff dyfarnu, fel sy'n ofynnol gan CITB.

70. Am resymau diogelwch rhaid cael cyfrinair er mwyn cael mynediad i'r porth, sydd wedi'i gysylltu â'r unigolyn. Ni chaniateir rhannu cyfrineiriau nac enwau defnyddwyr. Os byddan nhw'n cael eu rhannu, bydd yn cael ei ystyried yn achos o gamymarfer os daw CITB i wybod am hynny.

## Cadarnhau gwybodaeth adnabod

71. Rhaid i chi gynnal archwiliadau priodol i gadarnhau pwy yw'r cynrychiolwyr sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant, y profion neu'r asesiadau. Rhaid i chi gael tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos pwy ydyn nhw, a rhaid i'r dystiolaeth gynnwys y canlynol o leiaf,
    - Disgrifiad ID
    - Pedwar nod olaf yr wybodaeth adnabod, neu lungopi o'r wybodaeth adnabod os nad oes nodau i'w cofnodi.

72. Os ydych chi'n darparu hyfforddiant i'ch staff eich hun (hyfforddiant mewnol) a bod yr wybodaeth adnabod eisoes wedi'i chadarnhau fel rhan o'r broses recriwtio arferol, nid oes angen rhagor o wybodaeth. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei darparu i CITB ar gais. Rhaid i'r darparwr sicrhau nad yw'r broses o ddarparu hyfforddiant i'w staff ei hun yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau.

73. Os na fydd cynrychiolydd yn cyflwyno gwybodaeth adnabod ar ddechrau ei hyfforddiant, dylid caniatáu iddo barhau, ond bydd rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth cyn llwytho'r cyflawniad i fyny. (Os na fydd yr wybodaeth adnabod yn cael ei chyflwyno, gallai unrhyw gymorth ariannol a ddarparwyd gan CITB gael ei dynnu'n ôl).

## Defnyddio iaith wrth hyfforddi, profi ac asesu

74. Er mwyn sicrhau bod cynrychiolwyr yn ddiogel i weithio ar safleoedd adeiladu ym Mhrydain, mae'n bwysig bod ganddyn nhw ddigon o afael ar y Gymraeg neu'r Saesneg i gyflawni'r rôl. Felly rhaid i'r holl hyfforddiant, profion ac asesiadau gael eu cynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg oni bai fod iaith arall wedi'i nodi'n benodol yn y safon neu yng nghanllawiau penodol y cynllun.

75. Mae gan y profion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd sawl troslais a ganiateir.

## Systemau rheoli ansawdd

76. Mae CITB yn mynnu bod gennych chi system rheoli ansawdd sy'n rhoi sicrwydd bod yr hyfforddiant a ddarperir yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn y ddogfen hon, ac yn ennyn ffydd y diwydiant adeiladu yn y canlyniadau. Gellir cofnodi'r dull gweithredu mewn nifer o ffyrdd. Mae CITB yn defnyddio fframwaith BS/EN/ISO/9001. **Nid** yw CITB yn mynnu i chi gael eich cymeradwyo ar gyfer y safon hon. Dyma'r gofynion ar gyfer system rheoli ansawdd:

- Rhaid i'r system rheoli ansawdd gael cefnogaeth gan uwch reolwyr y darparwr hyfforddiant.
- Rhaid cael polisi/datganiad ansawdd sy'n gysylltiedig â darparu'r hyfforddiant, y profion a/neu'r asesiadau.
- Rhaid cael cynllun sampl neu amserlen archwilio sy'n cynnwys holl elfennau'r hyfforddiant a ddarperir.
- Rhaid gwneud darpariaeth i'r holl staff sy'n ymwneud â darparu'r hyfforddiant, a sicrhau ei ansawdd, allu cynnal eu DPP.
- Rhaid cael proses ysgrifenedig ar gyfer cynnal cofnodion sicrhau ansawdd, gan gynnwys adroddiadau adborth, strategaethau a chynlluniau monitro ansawdd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.
- Rhaid cael proses ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer cymeradwyo hyfforddwyr, aseswyr a goruchwylwyr yn ogystal â staff sicrhau ansawdd.
- Bydd unrhyw ddiwydrwydd dyladwy yn cael ei gofnodi wrth benodi staff hyfforddi, asesu, goruchwylio a sicrhau ansawdd.
- Rhaid cynnal adolygiad rheoli blynyddol o'r archwiliadau o'r ddarpariaeth hyfforddiant, gyda'i gynnwys yn cyfrannu at gylch gwella ansawdd.

## Cod ymddygiad

77. Mae CITB yn disgwyl i'w staff ymddwyn yn onest, yn ddiduedd ac yn egwyddorol. Disgwylir iddyn nhw ddelio â chwsmeriaid gydag empathi, yn effeithlon ac yn brydlon (o fewn yr amserlenni a nodwyd, pan fydd hynny'n berthnasol), a heb ragfarn. Os ydych chi'n teimlo nad ydym ni wedi cyflawni'r rhwymedigaethau hyn, gallwch roi gwybod i CITB drwy ddefnyddio'r weithdrefn gwyno, sydd i'w gweld ar ein gwefan. www.citb.co.uk

78. Disgwylir i'r darparwr hyfforddiant, ei bersonél cysylltiedig a'i staff ymddwyn yn yr un ffordd wrth ddelio â staff CITB. Os na fydd yr ymddygiad hwn yn cyrraedd ein disgwyliadau, bydd CITB yn cymryd camau priodol.

## Caethwasiaeth fodern

79. Mae Adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn nodi gofynion ar sefydliadau mawr, masnachol i lunio datganiad blynyddol ar gaethwasiaeth a masnachu pobl. Cyhoeddir datganiad CITB ar wefan CITB: www.citb.co.uk

80. Mae'n rhaid i unrhyw ddarparwr hyfforddiant yn Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB sy'n bodloni'r gofynion a nodwyd yn Adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 gael ei ddatganiad ei hun sy'n ymdrin â'r elfennau sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf. Yn achos sefydliadau llai, disgwylir i'r darparwyr hyfforddiant sy'n rhan o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB fod yn ymwybodol o'r camau y mae CITB yn eu cymryd yn y maes hwn ac iddyn nhw fod yn gyfarwydd â chynnwys y Ddeddf, yn ogystal â chamau rhesymol i gydymffurfio.

## Archwiliadau monitro CITB

81. Bydd CITB yn defnyddio staff sy'n archwilwyr cymwysedig (BS/EN/ISO/9001) ac arbenigwyr galwedigaethol i gynnal archwiliadau wyneb yn wyneb. Pan na fydd hyn yn ymarferol, bydd CITB yn cydlofnodi unrhyw benderfyniadau a wnaed gan yr archwilydd, gan ddefnyddio aelod o staff cymwysedig. Mae archwiliadau desg yn archwiliad ysgrifenedig, ac felly arbenigedd yn y maes archwilio fydd gan yr archwilydd.

82. Dylai'r broses sicrhau ansawdd deimlo'n gefnogol a galluogol, ond bydd yn cynnal ansawdd Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB. Bydd staff ansawdd CITB yn arwain, yn galluogi ac yn cefnogi. Ond, rhaid nodi mai eich cyfrifoldeb chi yw rhoi sicrwydd i CITB ynghylch eich hyfforddiant a sut rydych chi'n bodloni gofynion Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

83. Bydd holl aelodau Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB yn cael ymyriadau monitro gan CITB i sicrhau cysondeb, ansawdd y ddarpariaeth, a chywirdeb y data a gyflwynir. Bydd y gwaith yn cynnwys un neu fwy o’r canlynol.

    - Ymweliadau wyneb yn wyneb i adolygu gwaith papur, arsylwi hyfforddiant, llwytho data sampl i fyny i sicrhau cywirdeb, a chynnig cyngor, arweiniad a chymorth.
    - Cyswllt â chynrychiolwyr a chyflogwyr (galwad ffôn neu e-byst) i gael adborth annibynnol.
    - Archwiliadau cylchol ar gyfer Sicrhau Ansawdd.
    - Adolygiadau hunanasesu canolfan.
    - Cymeradwyaeth a chyfweliadau â hyfforddwyr, aseswyr, goruchwylwyr a'r staff sicrhau ansawdd.
    - Adolygiadau diwydrwydd dyladwy cylchol parhaus.

84. Bydd CITB yn adolygu ac yn archwilio gan ddefnyddio'r model Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu, a ddisgrifir yn BS/EN/ISO/9001.

85. Bydd CITB yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy yn ystod y cam ymgeisio, ac o bryd i'w gilydd drwy gydol cyfnod y gymeradwyaeth. Gall CITB ofyn am ragor o wybodaeth yn ystod yr archwiliadau hyn. Byddwn yn rhoi arweiniad a chymorth yn ystod y broses.

86. Bydd CITB yn mynd ati i sicrhau ansawdd mewn ffordd sy’n seiliedig ar risg. Bydd hyn yn cynnwys ymweliadau desg ac ymweliadau wyneb yn wyneb a fydd yn cael eu cynnal gan aelod o dîm sicrhau ansawdd CITB. Byddwch yn cael o leiaf un ymweliad neu ymyriad bob blwyddyn ar sail y categorïau rydych chi wedi cael eich cymeradwyo ar eu cyfer.

87. Bydd proffil yr ymweliad yn ddeinamig ac yn cael ei addasu ar ôl pob ymweliad. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb, yn safoni cynlluniau ymweliadau, ac yn gofalu nad oes gormod o faich ar y darparwr hyfforddiant.

88. Cyn unrhyw ymweliad lle rhoddwyd rhybudd, bydd CITB yn cysylltu dros y ffôn o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn yr ymweliad ac yn gofyn am wybodaeth er mwyn i ni allu rhoi ein holl sylw i chi yn ystod eich ymweliad.

## Archwiliadau monitro CITB – parhad

89. Ar ôl i chi gytuno ar gwmpas yr archwiliad monitro a drefnwyd, bydd CITB yn anfon cynllunydd ymweliad atoch o leiaf bum diwrnod gwaith cyn yr ymweliad, i gofnodi'r cynllun ar gyfer y gwaith monitro.

90. Os byddwch yn canslo ymweliad o fewn llai na phum diwrnod gwaith i ymweliad a drefnwyd, bydd CITB yn codi ffi fel y nodir yn ein rhestr ffioedd. www.citb.co.uk

91. O bryd i'w gilydd mae'n bosibl y bydd CITB yn cynnal archwiliadau monitro dirybudd, heb roi gwybod ymlaen llaw.

92. Yn ystod yr archwiliad monitro, mae'n bosibl y bydd CITB yn dod o hyd i enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio. Bydd yr enghreifftiau hyn yn cael eu rhannu wrth iddyn nhw godi. Bydd hyn yn eich galluogi (pan fydd yn bosibl) i'w cau cyn diwedd y sesiwn monitro. Os na ellir unioni'r diffyg cydymffurfio yn ystod yr ymweliad, cytunir ar gynllun gweithredu â chi.

93. Wrth ddod ar draws enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio, bydd CITB yn egluro'r diffyg cydymffurfio ac yn gofyn sut byddwch yn mynd ati i gydymffurfio, a faint o amser y bydd yn ei gymryd i wneud hynny. Bydd CITB yn cydweithio â chi ac yn cytuno ar dargedau CAMPUS â chi er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion yn gyflym ac yn effeithiol.

94. Ar ddiwedd yr archwiliad monitro bydd CITB yn rhoi adborth ar yr ymweliad, ynghyd â digon o fanylion i'ch helpu i gymryd camau priodol (os bydd angen) ar ôl y sesiwn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau ar y cam hwn, heb unrhyw ychwanegiadau pellach ato.

95. Yn dilyn hynny bydd CITB yn paratoi adroddiad ysgrifenedig ffurfiol ar yr archwiliad, a hynny o fewn 48 awr i ddiwedd yr ymweliad. Pan fydd cysylltiad â'r rhyngrwyd, bydd adroddiad yr ymweliad yn cael ei anfon yn syth. *(Dalier sylw: Bydd yr adroddiad yn gyflawn ar ddiwedd yr ymweliad, felly ni fydd unrhyw beth yn cael ei ychwanegu ato ar ôl i chi gael eich adborth llafar).* Bydd yr adroddiad yn ddigon manwl i'ch galluogi i wneud gwelliannau parhaol a/neu i adnabod arfer 'da'.

96. Pan fydd cynllun gweithredu'n cael ei gyhoeddi, bydd staff ansawdd CITB yn cydweithio â chi i'ch helpu i roi unrhyw welliannau ar waith ac i gytuno ar gynllun gweithredu CAMPUS.

97. Gall CITB atal dros dro:

- Os na chyflwynir gwybodaeth ar gyfer y sampl ofynnol o fewn yr amserlenni a ddarparwyd, neu

- am fethu cyflawni unrhyw bwyntiau gweithredu canlyniadol a nodwyd yn dilyn ymyriad ansawdd CITB.

98. O bryd i'w gilydd mae’n bosibl y bydd CITB yn cymedroli adroddiadau ymweld i sicrhau bod y tîm ansawdd yn gweithredu mewn ffordd safonol a chyson. Os daw’r broses hon o hyd i wall, bydd CITB yn cysylltu â chi i egluro'r canfyddiadau, a sut bydd yr adolygiad yn effeithio ar adroddiad yr ymweliad ac unrhyw gamau gweithredu.

## Archwiliadau monitro CITB – parhad

99. Pan fyddwch chi wedi cael eich cymeradwyo gan sefydliad trydydd parti, bydd CITB yn dibynnu ar drefniadau ansawdd y sefydliadau dyfarnu. O bryd i'w gilydd mae’n bosibl y bydd CITB yn cynnal adolygiad o’r hyfforddiant, asesiadau neu brofion, pan fydd yr hyfforddiant/asesiad/prawf yn derbyn cefnogaeth ariannol gan CITB a/neu'r cyflawniad yn cael ei lwytho i fyny i'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu, neu pan fydd cwyn neu honiad o dwyll, camymarfer neu gamweinyddu.

100. Gall CITB ymchwilio i unrhyw anghysonderau a/neu ymweld â'r safle i gasglu gwybodaeth ac adolygu cofnodion ychwanegol o ganlyniad i ymyriad ansawdd aflwyddiannus. Os na fydd CITB yn cael mynediad i'r eiddo, y bobl neu'r cofnodion, bydd CITB yn eich atal dros dro.

## Polisi atal twyll, camymarfer a chamweinyddu

101. Mae camymarfer yn weithred fwriadol, anfwriadol, ddi-ofal neu esgeulus gan unigolyn neu fusnes i gyflwyno gwybodaeth neu honni cyflawniad neu ganlyniad, neu i gael mantais ariannol drwy dwyll neu mewn modd na ellir ei ddilysu.

102. Mae camweinyddu yn weithgaredd sy'n arwain at ddarparwr hyfforddiant yn peidio â chydymffurfio â gofynion penodol ar gyfer darparu'r hyfforddiant, y profion neu'r asesiadau a gytunwyd. Mae gofynion CITB ar gyfer Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB wedi'u nodi yn y ddogfen hon ac yng ngofynion unrhyw gynllun penodol sy'n ategu cynhyrchion ar gyfer Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

103. Mae twyll yn weithred anghyfiawn neu droseddol a gyflawnir gyda'r bwriad o gael budd ariannol neu bersonol. Ar ben hynny mae twyll yn weithred nad yw'n cydymffurfio â gofynion CITB, ac sy'n bwrw amheuaeth dros ddilysrwydd, dibynadwyedd ac uniondeb cyflawniadau hyfforddiant, asesiadau a phrofion.

104. Mae'n rhaid i bob darparwr hyfforddiant roi gwybod i CITB am bob achos lle mae amheuaeth o gamymarfer, camweinyddu a thwyll, drwy anfon e-bost i report.it@citb.co.uk.

105. Mae gofyn bod gan yr holl staff sy'n ymwneud â chyflawni, gweinyddu, rheoli a sicrhau ansawdd wybodaeth fanwl am eich polisi atal twyll, camarfer, camweinyddu a llwgrwobrwyo.

106. Rhaid i chi gael polisi chwythu'r chwiban ysgrifenedig y mae'ch staff yn ei ddeall a'i gyfleu. Rhaid i'r polisi hwn eu galluogi i roi gwybod am achosion o dwyll, camymddwyn a/neu gamweinyddu, ymysg pethau eraill.

107. Os daw unrhyw honiadau o dwyll neu lwgrwobrwyo i law, bydd CITB yn atal cymeradwyaeth y darparwr hyfforddiant dros dro. Mae hon yn weithred niwtral i ddiogelu unrhyw ymchwiliad y bydd angen ei gynnal o bosibl.

108. Bydd pob honiad yn cael ei neilltuo i Dîm Cymeradwyo a Chydymffurfio a Thîm Atal Twyll CITB a fydd yn ymchwilio iddynt. Gallai hyn gynnwys (ymysg pethau eraill) ymweliadau â'r darparwr, cyfweliadau â'r staff, cyfweliadau â chynrychiolwyr, ac ymchwiliad i unrhyw waith papur perthnasol.

109. Bydd adroddiad yr ymchwiliad a'r dogfennau ategol yn cael eu hanfon at reolwr annibynnol a fydd yn adolygu'r achos a'r dogfennau ategol. Gwneir penderfyniad o fewn 10 diwrnod pan fydd hynny'n ymarferol o ran yr hyn fydd yn digwydd nesaf ac unrhyw gamau y gallai fod angen eu cymryd. Byddwch yn cael gwybod am y canlyniad yn ffurfiol.

## Atal twyll, camymarfer, a chamweinyddu – parhad

110. Os byddwch chi'n gadael Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB (boed yn wirfoddol ai peidio), rhaid i chi wneud pob ymdrech resymol i sicrhau nad oes effaith negyddol ar y cynrychiolwyr. Rhaid i chi wneud darpariaethau i storio'r holl waith papur a sicrhau ei fod ar gael am gyfnod o dair blynedd. Pan fydd angen, gall CITB eich helpu i wneud hynny.

111. Rhaid i chi wneud darpariaethau ar gyfer cynrychiolwyr sy'n dal yn weithredol ac sydd heb gwblhau eu hyfforddiant, eu hasesiad a/neu eu profion er mwyn iddyn nhw gwblhau eu rhaglen gyda darparwr arall, gan sicrhau bod darpariaethau priodol i rannu data ar waith.

112. Os na fyddwch chi'n cydweithredu â CITB ar unrhyw gam yn y broses ymchwilio, bydd eich statws fel darparwr yn Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB yn cael ei dynnu'n ôl.

113. Os byddwch chi'n gysylltiedig ag achos o gamymarfer, camweinyddu neu dwyll sydd wedi cael ei gadarnhau, mae'n bosibl y bydd eich statws cymeradwyaeth hyfforddiant yn cael ei dynnu'n ôl, ac y bydd eich aelodaeth o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB yn cael ei derfynu. Mae CITB yn cadw'r hawl i anfonebu'r darparwr am gost unrhyw ymchwiliad ac am gostau adferol i gynnal asesiadau a phrofion ar gyfer cynrychiolwyr lle canfuwyd bod y darparwr ar fai.

## Apeliadau, ymholiadau, cwynion a gwrthdaro rhwng buddiannau

114. Mae gofyn bod gennych chi weithdrefn apelio ac ymholi gyfredol er mwyn i gynrychiolwyr gwestiynu/apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch unrhyw elfen o'r hyfforddiant, yr asesiadau a/neu'r profion.

115. Rhaid i'r broses fod yn un ffurfiol a chynnwys amserlenni ysgrifenedig. Rhaid iddi hefyd gynnwys cyfle i uwchgyfeirio os na fydd y cynrychiolydd yn fodlon, neu os nad yw'r broses gwestiynu a’r apêl wedi'u datrys.

116. Rhaid i apeliadau gael eu cydnabod yn ffurfiol ar ôl iddyn nhw ddod i law, a rhaid cyfleu casgliadau'n ffurfiol i bawb sy'n berthnasol ar ddiwedd y broses apelio ac ymholi, gan gynnwys yr apelydd.

117. Rhaid i chi gael gweithdrefn gwyno ysgrifenedig a chofnod o'r cwynion a gofnodwyd a'r canlyniad, a ddarperir i staff ansawdd CITB yn ystod eu hymweliadau ansawdd.

118. Rhaid i chi gael prosesau i adnabod a lleihau unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau a allai godi. Mae CITB yn cydnabod na fydd modd osgoi rhai achosion o wrthdaro rhwng buddiannau, yn enwedig pan fydd y darparwr hyfforddiant yn gyflogwr sy'n darparu hyfforddiant mewnol. Mewn amgylchiadau o'r fath, disgwylir bod camau rhesymol a chymesur yn cael eu cymryd i gydnabod y gwrthdaro ac i egluro unrhyw fesurau lliniaru. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu fel rhan o'r prosesau cymeradwyo a rheoli darparwyr, a bydd angen i chi ddangos eich bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r gwrthdaro a allai godi.

## Tynnu cymeradwyaeth yn ôl

119. Os ydych chi'n dymuno tynnu'n ôl o fod yn rhan o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, rhaid i chi sicrhau'r canlynol:

- Mae CITB wedi cael ei hysbysu'n ffurfiol yn ysgrifenedig, ac wedi cael tri mis o rybudd cyn i chi gymryd unrhyw gamau. Rhaid i hyn gael ei wneud gan gynrychiolydd awdurdodedig y darparwr hyfforddiant, a rhaid nodi'r rheswm neu'r rhesymau dros dynnu'n ôl.

- Rhaid i holl gyflawniadau cynrychiolwyr sydd eisoes wedi cwblhau'r broses, neu a fydd yn cwblhau'r broses yn ystod y cyfnod rhybudd o dri mis, gael eu llwytho i fyny i borth CITB.

- Os nad yw'r ymrwymiadau a wnaed i'ch cynrychiolwyr wedi cael eu cyflawni, rhaid rhoi trefniadau addas ar waith er mwyn i'r unigolion hynny gwblhau eu rhaglen(ni) dysgu. Os bydd y cynrychiolwyr yn cael eu trosglwyddo i ddarparwr arall sy'n rhan o'r rhwydwaith, rhaid i'r unigolion gytuno i'w gwybodaeth gael ei rhannu â'r darparwr newydd, a rhaid cadw tystiolaeth o'u cydsyniad.

- Rhaid gwneud darpariaeth i storio cofnodion, fel y nodir yn adran gofynion data'r ddogfen hon. Rhaid cadw'r cofnodion hyn a sicrhau eu bod ar gael am gyfnod o dair blynedd.

# Apelio yn erbyn penderfyniad CITB

120. Os bydd CITB yn cymryd unrhyw gamau oherwydd diffyg cydymffurfio â'r gofynion a nodwyd yn Nhelerau Safonol y Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant (gan gynnwys y ddogfen hon a rheolau unrhyw gynllun penodol) neu o ganlyniad i ymchwiliad, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad.

121. Rhaid i'r apêl ddatgan yn glir yn ysgrifenedig ar ba sail y gwneir yr apêl, gan nodi unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r apêl. Rhaid gwneud yr apêl o fewn 10 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol, a rhaid ei hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

   Approval and Compliance Manager
   CITB
   4 Cyrus Way
   Hampton
   Peterborough
   Swydd Gaergrawnt
   PE7 8HP

   Neu dros e-bost. Cofiwch nodi 'Appeal' fel teitl ym mar pwnc yr e-bost.

   E-bost: quality.assurance@citb.co.uk

122. Fel arfer, gwrandewir ar eich apêl o fewn 10 diwrnod gwaith iddi ddod i law. Mae'n bosibl y bydd angen ymestyn y cyfnod hwn oherwydd natur a chymhlethdod yr apêl; cewch wybod yn ystod y broses os bydd yn cymryd mwy na 10 diwrnod gwaith.

123. Bydd y penderfyniad gwreiddiol yn dal mewn grym nes bydd yr apêl wedi'i chwblhau, a'ch bod wedi cael gwybod yn ffurfiol am y penderfyniad yn ysgrifenedig, oni bai y cytunwyd â'r rheolwr cymeradwyo a chydymffurfio yn ysgrifenedig.

# Atodiad 1: Meini prawf cymeradwyo

**Diwydrwydd Dyladwy**

| Cyfeirnod | Gofynion Manwl | Cymeradwyedig | Cydnabyddedig | Wedi Sicrhau | SSP Trwyddedig | ITC Trwyddedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Yswiriant, gan gynnwys ELI, PLI, PI | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 1.2 | Archwiliad credyd Experian ™ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 1.3 | Gwirio'r cwmni yn erbyn cofrestr Tŷ'r Cwmnïau pan fydd yn berthnasol | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 1.4 | Gwirio’r Cyfarwyddwr a’r staff yn erbyn cofrestr Tŷ'r Cwmnïau | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 1.5 | Datgan achosion blaenorol o dwyll, camymarfer a chamweinyddu | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 1.6 | Datganiad gan y darparwr ei fod yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn atodiad 1 Y Llawlyfr i Ddarparwyr Hyfforddiant | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 1.7 | Unrhyw gymeradwyaeth trydydd parti sy'n berthnasol i'r gymeradwyaeth | ✔ | ✔ | ✘ | ✘ | ✘ |
| 1.8 | Nid yw'r darparwr wedi'i atal dros dro rhag cael unrhyw gymeradwyaeth gan drydydd partïon na CITB ar hyn o bryd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 1.9 | Datganiad bod y darparwr wedi mapio ei gynnyrch yn unol â'r safon cyfnod byr | ✘ | ✘ | ✔ | ✘ | ✘ |

# Atodiad 1: Meini prawf cymeradwyo

**Systemau Rheoli**

| Cyfeirnod | Gofynion Manwl | Cymeradwyedig | Cydnabyddedig | Wedi Sicrhau | Trwyddedig | ITC Trwyddedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Unrhyw bolisi angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol gan gynnwys rhai Iechyd a Diogelwch, Caethwasiaeth Fodern, a Diogelu ymysg eraill | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.2 | Mae polisïau a System Rheoli Ansawdd ar waith ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol | | | | | |
| 2.2a | Polisi apelio a chwyno | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.2b | Cyfle cyfartal ac amrywiaeth; gan gynnwys Polisi addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.2c | Goruchwylio arholiadau a phrofion | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.2d | Polisi atal twyll, camymarfer a chamweinyddu | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.2e | Chwythu'r Chwiban | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.2f | Gwrthdaro rhwng buddiannau | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.2g | Polisi sicrhau ansawdd mewnol, gan gynnwys cynllun samplu, a siart o'r sefydliad | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.3 | Mae'r darparwr hyfforddiant yn cynnal ac yn cofnodi archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer staff cyflawni er mwyn sicrhau eu bod yn addas a'u bod yn bodloni gofynion Rheolau'r Cynllun. Mae tystiolaeth o'r archwiliadau hyn, a manylion staff a chymwysterau, ar gael i'w harchwilio | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.4 | Mae'r darparwr hyfforddiant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i CITB am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar ddarpariaeth neu statws y darparwr hyfforddiant. Gofynnir am arweiniad os oes ansicrwydd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.5 | Mae'r darparwr hyfforddiant yn cyflwyno'r holl fanylion gofynnol yn gywir i'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu o fewn yr amserlenni a nodwyd | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.6 | Rhaid i'r darparwr hyfforddiant gadw cofnodion cywir y gellir eu harchwilio, a rhoi mynediad i CITB ar gais (gan gynnwys eiddo'r darparwr hyfforddiant, lleoliadau darparu hyfforddiant a'r staff) | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.7 | Mae gan y darparwr hyfforddiant weithdrefnau gweithredu ysgrifenedig clir, sy'n ymdrin â phob agwedd ar ddarparu'r hyfforddiant a'r gwaith gweinyddol cysylltiedig.<br><br>Mae unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau yn cael ei nodi a'i ddogfennu, a chamau'n cael eu cymryd i leihau risg yn y ddarpariaeth. Os nad oes modd lleihau'r risg, gofynnir am gyngor gan CITB | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.8 | Mae cynrychiolwyr neu ddarpar gynrychiolwyr unigol wedi cydsynio i'w data personol gael ei ddefnyddio at ddibenion y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu, CITB, gan fodloni'r gofynion deddfwriaethol presennol (neu wedi optio allan o hynny).<br><br>Mae'r cadarnhad ar gael i'w archwilio | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.9 | Mae camau gweithredu sy'n deillio o ymyriadau ansawdd CITB yn cael eu rhannu â'r staff perthnasol a'u cwblhau o fewn yr amserlenni a gytunwyd.<br><br>Cysylltir â CITB i roi gwybod pan nad oes modd cyflawni cynlluniau gweithredu er mwyn cael cyngor ac arweiniad | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.10 | Cytundebau Lefel Gwasanaeth, Staff Peripatetig | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.11 | Cofrestru ar gyfer ICO | ✘ | ✘ | ✘ | ✔ | ✔ |
| 2.12 | Proses Archebu | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 2.13 | Cofnod o'r broses ar gyfer llwytho cyflawniadau i fyny i'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu yn achos cyrsiau sy'n gysylltiedig â safonau cyfnod byr CITB | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |

# Atodiad 1 – Meini Prawf Cymeradwyo

**Adnoddau**

| Cyfeirnod | Gofynion Manwl | Cymeradwyedig | Cydnabyddedig | Wedi Sicrhau | SSP Trwyddedig | ITC Trwyddedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Mae digon o staff cymwysedig ar gael i fodloni gofynion y broses gyflawni, fel y nodir yn Rheolau'r Cynllun | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3.2 | Mae gan staff y darparwr hyfforddiant rolau sydd wedi'u diffinio'n glir, maen nhw'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac maen nhw'n cael gwybod am unrhyw newidiadau perthnasol | ✗ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3.3 | Mae gweithgareddau DPP perthnasol yn cael eu cyflawni a'u cofnodi ar gyfer staff y darparwr hyfforddiant | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| 3.4 | Mae'r adnoddau ffisegol angenrheidiol, a restrir yn Rheolau'r Cynllun, ar gael ac yn bodloni unrhyw fanyleb berthnasol | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3.5 | Mae systemau iechyd, diogelwch a lles ar waith i ddiogelu staff a chynrychiolwyr y darparwr hyfforddiant, yn ogystal â phobl eraill. Mae'r systemau hyn yn cael eu hadolygu a'u cynnal | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3.6 | Mae dogfennau hunanasesu a safonau yn cael eu cynnal a'u diweddaru, ac maen nhw ar gael i CITB ar gais | ✗ | ✗ | ✓ | ✗ | ✗ |
| 3.7 | Mae cynlluniau gwers, cynlluniau gwaith ac adnoddau cyflwyno ar gael ar gais ac yn eiddo i'r darparwr at ddibenion cysondeb a safoni | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ |
| 3.8 | Mae cymeradwyaeth trydydd parti yn cael ei chynnal a'i diweddaru | ✗ | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ |

# Atodiad 1

**Cynrychiolwyr**

| Cyfeirnod | Gofynion Manwl | Cymeradwyedig | Cydnabyddedig | Wedi Sicrhau | SSP Trwyddedig | ITC Trwyddedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Mae’r cynrychiolwyr yn cael asesiad cychwynnol er mwyn canfod a yw’r cwrs yn gynaliadwy, a phan ddaw unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau arbennig angenrheidiol i’r amlwg, mae'r anghenion yn cael eu cofnodi | ✗ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4.2 | Mae gwybodaeth adnabod cynrychiolwyr yn cael ei gwirio a'i chofnodi yn unol â'r gofynion a restrir ym mharagraffau 71, 72, 73 y ddogfen hon | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4.3 | Mae'r hyfforddiant/asesiad a/neu'r profion a ddarperir yn cael eu cyflwyno’n addas ac yn ddigonol i’r cynrychiolwyr | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4.4 | Cynhelir yr hyfforddiant, yr asesiad a’r broses gyflawni yn Gymraeg neu’n Saesneg. Os yw'r ddarpariaeth yn digwydd mewn iaith arall, lle caniateir hynny, rhaid cynnal y ddarpariaeth yn unol â chanllawiau penodol y cynllun | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✗* |
| 4.5 | Rhoddir gwybod i’r cynrychiolwyr a'r cyflogwyr am drefn apelio a chwyno'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy. Mae’r wybodaeth hon ar gael ar y wefan ac ar hysbysfyrddau fel mater o drefn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Ac eithrio pan fydd y troslais ar gael mewn iaith arall.*

# Atodiad 1

**Sicrhau Ansawdd**

| Cyfeirnod | Gofynion Manwl | Cymeradwyedig | Cydnabyddedig | Wedi Sicrhau | SSP Trwyddedig | ITC Trwyddedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Mae'r Systemau Rheoli Ansawdd wedi'u dogfennu'n glir ac yn ymdrin â phob agwedd ar brosesau'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 5.2 | Mae gan y Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy staff sydd â digon o awdurdod i wneud gwaith sicrhau ansawdd mewnol | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 5.3 | Mae cofnodion monitro ansawdd yn cael eu cynnal yn unol â gofynion y system rheoli ansawdd a gytunwyd sy'n ei gwneud yn bosibl i'w harchwilio, ac maen nhw ar gael i'w hadolygu. Rhaid iddyn nhw gynnwys amserlen archwilio | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 5.4 | Mae gwaith monitro ansawdd yn sicrhau bod y tîm cyflawni bob amser yn dilyn rheolau cynllun cynnyrch CITB a gofynion safonol y diwydiant | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 5.5 | Mae cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y safonau a gyhoeddwyd, neu ofynion y cwrs, wedi'u cyflawni'n llawn | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✘ |
| 5.6 | Mae'r cofnodion hyfforddiant yn bodloni gofynion data CITB (paragraffau 60, 61, 62) | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 5.7 | Mae prosesau a systemau monitro ansawdd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd yn ôl yr angen | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 5.8 | Mae camau gweithredu sy'n deillio o ymyriadau ansawdd CITB yn cael eu cymryd yn gywir ac yn syth, a'u defnyddio i ddiweddaru prosesau mewnol er mwyn gofalu nad yw'r problemau'n codi eto | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |

# Atodiad 1

**Cofnodion**

| Cyfeirnod | Gofynion Manwl | Cymeradwyedig | Cydnabyddedig | Wedi Sicrhau | SSP Trwyddedig | ITC Trwyddedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6.1 | Mae cofnodion yn cael eu cadw ac yn cynnwys achosion o Basio a Methu, a byddant ar gael ar gais yn ystod ymyriadau sicrhau ansawdd CITB | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | √ |
| 6.2 | Mae'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy yn casglu, yn cofnodi ac yn adolygu adborth cynrychiolwyr a chyflogwyr yn rheolaidd | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| 6.3 | Bydd gan y Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy brosesau i sicrhau bod cynrychiolwyr yn ymwybodol o'r gofyniad i ddarparu prawf ffotograffig o bwy ydyn nhw ar ddiwrnod cyntaf cwrs | ✘ | ✘ | ✔ | ✔ | ✔ |

## Atodiad 2: Camau unioni

- **OBS Arsylwi (Observation)**

Nid yw hyn yn rhywbeth y mae’n rhaid rhoi sylw iddo, ond y bwriad yw ei fod yn gefnogol ac yn helpu'r darparwr i wella – e.e. cyfaill beirniadol sy'n rhoi cyngor, a/neu’n cydnabod elfennau o 'arferion da.'

- **IAG Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (Information, Advice, and guidance)**

Bydd CITB yn darparu enghreifftiau a thempledi i helpu Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddarparu cynnyrch a gwasanaethau. Bydd gweminarau ac ymweliadau cynghori yn rhan o'r swyddogaeth cymorth a ddarperir gan y tîm sicrhau ansawdd i dynnu’r baich a gwneud pethau’n gliriach.

- **CAR Angen Camau Unioni (Corrective Action Required)**

Mae'r lefel hon o weithredu yn berthnasol i achosion llai difrifol o ddiffyg cydymffurfio, ac mae'n mynnu bod y darparwr yn cymryd camau i wella ei brosesau – yn benodol, mewn perthynas â'r gofyniad y gwelwyd ei fod yn wan ac yn aneffeithiol, ac a allai arwain at achosion mwy difrifol o ddiffyg cydymffurfio os na fydd yn derbyn sylw. Gallai'r diffyg cydymffurfio hwn arwain at golli ffydd y diwydiant adeiladu os bydd yn parhau.

- **IAR Angen Gweithredu Ar Unwaith (Immediate Action Required)**

Mae'r lefel hon o weithredu yn berthnasol i achosion mwy difrifol o ddiffyg cydymffurfio, ac yn mynnu eich bod yn cymryd camau ar unwaith. Mae’n bosibl y cewch chi’ch atal dros dro yn ystod y cyfnod hwn. Mae risg sylweddol i uniondeb y cyflawniadau neu'r gweithgareddau, sy'n debygol o niweidio darpariaeth Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB.

- **SUS Ataliad Dros Dro (Suspension)**

Bydd y lefel hon o weithredu yn cael ei defnyddio ar ôl gofyn am ganiatâd aelod o'r Tîm Rheoli Ansawdd. Y bwriad yw bod y cam hwn yn cael ei ddefnyddio pan fu methiant elfennol gan y darparwr, gan gynnwys y canlynol ymysg pethau eraill; Wedi methu dilyn CAR neu IAR, arferion gwael wrth gadw cofnodion sy’n effeithio ar ddibynadwyedd cyflawniadau, rheswm dros gredu y bu camymarfer/camweinyddu a/neu dwyll. Rhaid nodi bod atal dros dro, yn achos camarfer, camweinyddu a thwyll, yn weithred niwtral tra bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal.

- **TER Terfynu (Termination)**

Y cam hwn yw'r dewis olaf un, ac mae'n benderfyniad contractiol i ddod â'r berthynas rhwng CITB a'r darparwr i ben. Defnyddir dau fath o ddull terfynu; Terfynu sy'n gysylltiedig â chymal yn y contract am fethiant, y gall y darparwr apelio yn ei erbyn, a Therfynu mewn Rhybudd, na ellir apelio yn ei erbyn.

- **Diffyg sy'n parhau ac yn digwydd dro ar ôl tro**

Mewn sefyllfaoedd lle mae darparwr hyfforddiant yn methu cyflawni cam gweithredu penodol neu'n dangos yr un diffyg yn gyson, mae CITB yn cadw'r hawl i uwchgyfeirio’r

lefel o weithredu ar gyfer statws y darparwr hyfforddiant. I osgoi unrhyw amheuaeth, mae hyn hefyd yn cynnwys yr un elfen o ddiffyg cydymffurfio yn codi dro ar ôl tro.

# Atodiad 3: Cymwysterau hyfforddwyr ac esemptiadau

Mae'r cymwysterau cydnabyddedig i hyfforddwyr (categorïau 'Cymeradwyedig' a 'Trwyddedig') wedi'u rhestru yn y tabl isod. *(Mae'r rhestr hon yn gywir adeg ei chyhoeddi, a bydd yn cael ei newid a'i hadolygu ar sail gofynion yn y dyfodol.)*

| | |
|---|---|
| PTLLS Lefel 3 | Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes |
| CTLLS Lefel 3 | Tystysgrif Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes |
| DTLLS Lefel 5 | Diploma Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes |
| TAR | Tystysgrif Addysg i Raddedigion |
| C&G 7302 | Tystysgrif Addysgu |
| C&G 7303 | Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes |
| C&G 7307 | Tystysgrif Addysgu/Addysgu Oedolion |
| C&G 7407 | Tystysgrif Addysgu Addysg Bellach |
| AHO | Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol |
| L Uned 9 (L9) | Creu amgylchedd sy'n hybu'r broses ddysgu |
| L Uned 10 (L10) | Hwyluso dysgu drwy gyflwyniadau |
| L Uned 11 (L11) | Hwyluso dysgu drwy arddangos a rhoi cyfarwyddyd |
| L Uned 12 (L12) | Hwyluso dysgu drwy hyfforddi/mentora |
| Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant | |
| Lefel 4 mewn Addysg a Hyfforddiant | |
| TAQA Dyfarniad L3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth (Asesiad yn Unig) | |
| TAQA Tystysgrif L3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol (Asesiad yn Unig) | |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant | |
| Cwrs / Safon Cyfnod Byr Technegau Cyfarwyddol CITB | |
| Cwrs Technegau Cyfarwyddol NPORS | |
| Safon Hyfforddi'r Hyfforddwr CITB | Mae'n cael ei darparu drwy rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB fel cwrs categori 'gwarantedig' |

Os yw'r darpar hyfforddwr wedi gwneud cymhwyster neu gwrs ardystiedig sydd heb ei restru uchod, gellir cyflwyno cais i dîm sicrhau ansawdd CITB. Bydd rhaid cyflwyno gwybodaeth ychwanegol berthnasol i ategu'r cais.

# Atodiad 4: Rhesymau dros roi diweddariad i CITB

Mae'r eitemau isod yn rhoi syniad o'r digwyddiadau lle byddai'n rhaid i aelod Cymeradwy o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB roi diweddariad i CITB. *(Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.)*

- Newid o bwys yn y strwythur llywodraethu neu'r statws cyfreithiol.
- Newid yn y dull rheoli.
- Uno â darparwr hyfforddiant, cwmni neu sefydliad arall.
- Unrhyw gam ansolfedd neu fethdaliad.
- Mae safon yr hyfforddiant a gyhoeddwyd (Cymeradwyedig) neu ofynion cynnyrch CITB yn cynnwys camgymeriad mawr.
- Mae cofnodion Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy wedi cael eu colli neu eu dwyn, neu mae gwybodaeth gyfrinachol ynddynt wedi cael ei datgelu (er enghraifft, darparu a gweinyddu).
- Nid yw'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy yn gallu darparu'r wybodaeth y mae CITB wedi gofyn amdani erbyn dyddiad penodol.
- Bu methiant o ran y ffordd mae hyfforddiant a/neu asesiadau neu brofion cysylltiedig yn cael eu darparu, a allai danseilio hyder y diwydiant yn yr hyfforddiant, yr asesiadau neu'r profion sydd wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu.
- Mae'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy wedi colli staff allweddol a fydd yn atal neu'n cyfyngu ar y broses o gyflawni categorïau cynnyrch cymeradwy (Cydnabyddedig, Cymeradwyedig a Thrwyddedig).
- Mae'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy wedi cyhoeddi canlyniadau neu dystysgrifau anghywir.
- Mae'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy yn credu y bu achos o gamymarfer neu gamweinyddu a allai annilysu'r gwaith o gyflawni safon hyfforddi, cwrs CITB neu dystysgrif reoledig a/neu gais anwir am gyllid CITB.
- Mae sefydliad Trydydd Parti wedi dileu cymwysterau a/neu dystysgrifau.
- Mae cymhwyster neu dystysgrif wedi cael ei dychwelyd oherwydd gwall, ac nid yw'r cyflawniad yn ddilys mwyach.
- Mae staff Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy wedi defnyddio'r Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu a'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu yn dwyllodrus neu'n amhriodol.
- Mae'r Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy wedi'i enwi fel parti mewn unrhyw achos troseddol neu sifil, neu mae'n destun ymchwiliad rheoleiddiol neu sancsiwn gan unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu lywodraeth.
- Mae uwch swyddog yn y Darparwr Hyfforddiant Cymeradwy yn barti mewn achos troseddol (ac eithrio mân droseddau gyrru), yn destun unrhyw gamau gwahardd fel cyfarwyddwr cwmni, neu'n destun achos disgyblu gan unrhyw gorff proffesiynol, rheoleiddiol neu lywodraeth.

# Atodiad 5: Hysbysiad prosesu teg

Bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei darparu i *[rhowch yr enw]*, aelod o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB, *yn cael ei defnyddio i weinyddu cyrsiau at ddibenion sy'n gysylltiedig â rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ("CITB") fel Bwrdd Hyfforddi Diwydiannol yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.*

*Bydd eich data yn cael ei gadw'n ddiogel a'i drin yn gyfrinachol, a dim ond at y dibenion a ddisgrifiwyd uchod y bydd yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon. Gallai hyn gynnwys rhannu eich gwybodaeth ar Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu CITB a gyda chyflogwyr, sefydliadau dyfarnu, cynlluniau cardiau cymhwysedd neu ddarparwyr hyfforddiant.*
*Gallwch gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am eich hawliau cyfreithiol a sut gallai'ch gwybodaeth chi gael ei defnyddio, drwy:*

- Edrych ar Hysbysiad Preifatrwydd CITB ar-lein yn https://www.citb.co.uk/cy-gb/dolenni-defnyddiol/polisi-preifatrwydd/
- Gofyn i aelod o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB am wybodaeth ynghylch sut maen nhw'n ymdrin â'ch data personol.

# Atodiad 6 – Proses Diwydrwydd Dyladwy CITB

Ar ôl cael cais gan ddarparwr hyfforddiant, bydd CITB yn cynnal archwiliad drwy asiantaeth gwirio credyd i gael gwybod pa mor sefydlog yw'r cwmni yn ariannol.

- **Archwiliadau gan Asiantaeth Gwirio Credyd**

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos sgôr credyd sefydlog am o leiaf dri mis cyn dyddiad y cais, er mwyn ennyn ffydd bod y busnes mewn sefyllfa ariannol iach a'i fod yn cael ei reoli'n dda. Hefyd, bydd CITB yn ystyried unrhyw broblemau tymor hwy o hyd at flwyddyn. Gallai'r problemau hyn ddatgelu risg credyd ansefydlog, uchel neu barhaus.

Pan fydd archwiliad credyd aflwyddiannus, ni fydd y broses diwydrwydd dyladwy yn parhau y tu hwnt i'r pwynt hwnnw, a bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y canlyniad yn ysgrifenedig. Ni fydd unrhyw geisiadau eraill yn cael eu derbyn am gyfnod o chwe mis o ddyddiad y cais aflwyddiannus.
Yn dilyn archwiliad credyd llwyddiannus, bydd yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy yn symud ymlaen i'r cam nesaf ac yn cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn).

- archwiliadau o Gyfarwyddwyr/Perchnogion y cwmni (gan gynnwys cwmnïau blaenorol a/neu gwmnïau sydd wedi'u diddymu)
- yn achos cwmnïau cyfyngedig, rhaid i'r statws ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau fod yn weithredol. (I osgoi amheuaeth, ni fydd cais gan gwmni segur yn symud ymlaen)
- cyflogeion y cwmni a/neu is-gontractwyr/staff peripatetig
- archwiliadau o gyfeiriadau busnesau neu gwmnïau neu unigolion cysylltiedig eraill.

Gallai CITB hefyd ystyried unrhyw wybodaeth arall sy'n gysylltiedig ag amheuaeth o dwyll, camarfer, camweinyddu, neu droseddoldeb arall y mae CITB neu Sefydliad Dyfarnu arall wedi ymchwilio iddo yn y gorffennol.

Os bydd y cais yn cael ei wrthod yn dilyn y broses diwydrwydd dyladwy gyflawn, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y canlyniad yn ysgrifenedig. Ni fydd unrhyw geisiadau eraill yn cael eu derbyn am gyfnod o chwe mis o ddyddiad y cais aflwyddiannus.

Mae gan ymgeiswyr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad cymeradwyo a wnaed gan CITB, fel y nodir yn adran apelio'r ddogfen hon.

Fel rhan o'ch cymeradwyaeth fel Darparwr, rydych chi'n cytuno i fod yn destun archwiliadau cefndir parhaus gan CITB yn unol â'r broses diwydrwydd dyladwy uchod, a gynhelir yn flynyddol fel arfer, pan wneir cais ar gyfer cynnyrch ychwanegol, neu pan fu newid o bwys yn nhrefn lywodraethu'r Darparwr. Os byddwch chi'n gwrthod cymryd rhan yn yr archwiliadau blynyddol hyn, gallai hynny arwain at atal dros dro neu derfynu'r cytundeb Darparwr.

Os gwelir fel rhan o'r archwiliadau cefndir parhaus bod y risg wedi cynyddu, gallai hynny arwain at newid terfynau credyd y Darparwr.